ATODLEN 1

Adolygiadau i Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub (Cymru) 2005

**18.** Dileer paragraffau 5.26 i 5.29 ac yn eu lle rhodder—

"**Firelink**

**5.26** Fel y cyhoeddwyd yng Nghylchlythyr Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru (06)09, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymuno â Llywodraeth y DU i gaffael system gyfathrebu radio digidol o'r radd flaenaf a enwir Firelink ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru, yr Alban a Lloegr. Bydd y system newydd hon yn darparu'r un dechnoleg i'r Awdurdodau Tân ac Achub ag a ddarperir i'r Heddlu a maes o law i'r Gwasanaeth Ambiwlans yng Nghymru gan greu'r gallu i ryngweithredu a gwrthsefyll am y tro cyntaf.

**5.27** Cafodd y contract ar gyfer y system gyfathrebu newydd ei osod i $O^2$ Airwave Limited. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn buddsoddi tua £44 miliwn dros y 10 mlynedd nesaf yn Firelink a bu'n gweithio'n agos â Llywodraeth y DU i sicrhau bod y buddsoddiad hwn yn rhoi'r gwerth gorau am arian. Caiff y system ei chyllido gan Lywodraeth y Cynulliad hyd nes y bydd yn weithredol, ac yna bydd yr Awdurdodau Tân ac Achub yn cyfrannu at gostau refeniw y system newydd am gyfnod llawn y contract. Mae'r contract hefyd yn darparu ar gyfer cynnal a chadw systemau cyfathrebu radio presennol hyd nes y bydd system newydd Firelink yn gweithredu'n llawn.

**5.28** Mae'r rhaglenni gwaith yn darparu y dylai'r system fod yn weithredol yng Nghymru gyda'r gallu i ryngweithredu'n llawn ledled gwasanaethau brys y DU erbyn canol 2009. Drwy Firelink bydd y gallu gan Awdurdodau Tân ac Achub i ymateb yn effeithiol i ddigwyddiadau ar raddfa fawr ledled y DU a bydd yn eu darparu i ymdrin â gwahanol argyfyngau a gofynion heriol yr amgylchedd fel y maent heddiw.

**Hyfforddiant**

**5.29** Cydgysylltir yr hyfforddiant i Ddifoddwyr Tân yng Nghymru ym mhob un o elfennau'r Dimensiwn Newydd a chyflawnir yr hyfforddiant mewn cydweithrediad â Thîm Cynllunio Rhanbarthol Dimensiwn Newydd Cymru a'r Prif Swyddogion Tân. Mae'r hyfforddiant arbennig yn cynnwys Diheintio Torfol; Canfod ac Adnabod Deunyddiau; Pympiau Pwerus; Chwilio ac Achub Trefol (ChAT) a Rheoli a Gorchymyn. Cyllidir yr hyfforddiant yn uniongyrchol gan Lywodraeth y Cynulliad nes bydd gwaith y Rhaglen Dimensiwn Newydd a gyflwynir fesul cam wedi cael ei chwblhau pan fydd trefniadau cyllido yn y tymor hir ar waith. Bydd costau ar gyfer criwiau ChAT hefyd yn cael eu cyllido gan Lywodraeth y Cynulliad, gan gynnwys ystordai newydd ar gyfer cerbydau a chyfarpar y Dimensiwn Newydd, ynghyd â Rig Hyfforddi ChAT newydd a storfa."